# CYNLLUN GWEITHREDU PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM

## Mewn ymateb i

## Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru – Ymrwymiad i Weithredu

**Mae'r ymrwymiadau hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd er hwylustod cyflwyno ac eglurder gweithredu. Nid yw hyn yn golygu bod y drefn maent yn ymddangos ynddi'n arwydd o unrhyw flaenoriaethu. Mae pawb sy'n rhan o'r Siarter wedi ymrwymo i wneud cynnydd ym mhob maes.**

**Cymeradwywyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr ar 28 Mai 2020**

**<u>Diweddarwyd 26 Tachwedd 2021</u>**

**Mae Bwrdd Llywodraethwyr wedi ymrwymo i weithredu'r Ymrwymiadau i Weithredu yn deillio o'r adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru. Mae mwyafrif y gweithredoedd yn cynnwys dyddiadau penodol a byddant yn cael eu cyflwyno rhwng Mehefin 2020 a Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, mae nifer fechan o weithredoed sy'n ddibynnol ar ganlyniadau gwaith cyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Serch hynny, nod y Bwrdd yw gweithredu'r cynllun gweithredu yn ei gyfanrwydd cyn diwedd y flwyddyn academaidd 2021/22.**

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| A | **Deall Diwylliant:** | | | |
| | 1. O ystyried pwysigrwydd diwylliant sefydliadol cadarnhaol i brifysgol ffyniannus, bydd pob corff llywodraethu yn adolygu'n ffurfiol data meintiol ac ansoddol sy'n ymwneud â diwylliant y sefydliad.<br><br>2. Bydd y corff llywodraethu yn ystyried a oes unrhyw fylchau | 1. Corff Llywodraethu<br><br>2. Cadeirydd | Ystyrir bod diwylliant o fod yn agored, tryloywder ac ymddiriedaeth, lle mae staff yn teimlo y medrant leisio eu barn. Mae gan y Brifysgol arolwg ymgysylltu gyda staff a gynhelir bob dwy flynedd. Mae cwestiynau'r arolwg yn cyd-fynd gydag elfennau'r fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl.<br><br>Dadansoddir yr arowlg yn allanol, a meincnodir amrediad o gwestiynau'n allanol. | A i. Er mwyn profi'r dybiaeth / ceisio cadarnhau fod diwylliant cadarnhaol yn bodoli yn y Brifysgol gofyn i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol ystyried y cwestiynau yn yr Arolwg Ymgysylltiad Staff sydd eisoes yn holi am faterion diwylliannol a thynnu sylw at y rhain wrth ddadansoddi'r arolwg yn Hydref 2020, gyda'r paratoadau'n digwydd eisoes.<br>**31 Mawrth 2021 (Cwblhawyd)** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | rhwng y diwylliant gwirioneddol a'r diwylliant a ddymunir, a bydd yn penderfynu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i gau'r bwlch er mwyn cyflawni'r diwylliant a ddymunir.<br><br>3. Bydd yr adroddiad blynyddol yn darparu sylwadau ar sut mae'r corff llywodraethu wedi mynd ati i gynnal yr adolygiad hwn. | <br><br><br><br><br><br>3. Cadeirydd | Mae'r meysydd penodol yn yr arolwg y tybir eu bod yn dango diwylliant y sefydliad wedi'u cynnwys yn yr adrannau a ganlyn:<br>• Arweinyddiaeth ac ysbrydoli pobl<br>• Byw gwerthoedd y Brifysgol<br>• Grymuso a chynnwys pobl<br>• Rheoli perfformiad<br>• Cydnabod a gwobrwyo perfformiad<br>• Strwythuro gwaith<br>• Creu capasiti<br>• Cyflawni gwella parhaus<br>• Creu llwyddiant cynaliadwy<br>• Cyfleoedd cyfartal<br>• Boddhad cyffredinol<br><br>Mae ymweliadau'r llywodraethwyr i gyfadrannau a meysydd proffesiynol yn cynnwys ymgysylltu gyda staff a myfyrwyr.<br><br>Yn ychwanegol at ganlyniadau'r arolwg ymgysylltu gyda staff mae'r Bwrdd Llywodraethwyr a'r Uwch Reolwyr yn medru cael ymdeimlad o'r diwylliant sy'n bodoli yn y Brifysgol trwy gyfrwng amrediad o adroddiadau rheolaidd i'r Bwyllgor Adnoddau Dynol, yn cynnwys adroddiadau ar:<br>• Cwynion staff;<br>• Achosion disgyblu staff;<br>• Staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu;<br>• Absenoldeb salwch staff, yn enwedig yn ymwneud â straen;<br>• Cymryd rhan mewn cynadleddau staff;<br>• Trosiant staff;<br>• Staff yn rhannu blogiau a flogiau yn ystod y pandemig; ac | A ii. Os yw canlyniadau arolwg 2020 yn groes i'r dybiaeth fod diwylliant o fod yn agored, tryloyw ac ymddiriedolaeth a lle bo staff yn teimlo'n hyderus y medrant fynegi eu barn, yna ystyried beth y gellir ei wneud i ymdrin â'r mater ar yr adeg priodol.<br>(TÌM GWEITHREDOL YR IG / BWRDD)<br>**31 Hydref 2021 (Disodlwyd)**<br><br>A iii. Ystyried pa ddata arall fedr gyfrannu at ddealltwriaeth a monitro'r diwylliant gan y Bwrdd. (TÎM GWEITHREDOL YR IG)<br>**30 Hydref 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>A iv Llunio datganiad wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraethwyr yn gysylltiedig â'r gwerthoedd cyfredol y gellir ei rannu gan y Bwrdd i'r holl staff a myfyrwyr. (CADEIRYDD / IG / Bwrdd)<br>**31 Mawrth 2021 (Disodlwyd)**<br><br>A v. Dangos y cysylltiadau i'r gwerthoedd a nodir yn y Weledigaeth a'r Strategaeth fel bod dull ffurfiol a chyson o adnabod bylchau a gweithredoedd a fydd yn cynorthwyo gyda darparu tystiolaeth a gofynion adrodd yn ôl a chynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir (os oes unrhyw rai'n bodoli) (TÎM GWEITHREDOL YR IG / BWRDD YR IG)<br>**31 Mawrth 2021 (Disodlwyd)**<br><br>A vi. Comisiynu adolygiad o'r diwylliant yn y dyfodol – yn unigol neu ar y cyd gyda phrifysgolion Cymreig eraill, gan fanteisio ar arferion da / rhwydweithiau y Deyrnas Unedig e.e. trwy Advance HE. *(Gallai'r Archwilwyr Mewnol gynorthwyo a/neu ddefnyddio arbenigedd gan rwydweithiau Cyfarwyddwyr* |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | 4. Bydd y Cadeirydd a'r Is-Ganghellor ym mhob sefydliad yn cymryd rhan mewn adroddiad adborth 360 a gynlluniwyd o amgylch gwerthoedd y sefydliad**.** | 4. Ysgrifennydd / Clerc Cadeirydd a'r IG | Adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch: Achosion chwythu'r chwiban (os oes rhai) Adolygu perfformiad y Cadeirydd – gwahodd sylwadau gan yr holl lywodraethwyr ac aelodau gweithredol, wedi'i hwyluso gan yr Is-gadeirydd.<br><br>Mae proses Adolygu Perfformiad a Datblygu yn bodoli ar gyfer yr holl staff, yn cynnwys yr Is-Ganghellor. | *Adnoddau Dynol)* (BWRDD / TÎM GWEITHREDOL YR IG)<br>**Erbyn diwedd 2021/22 (Cwblhawyd)**<br><br>'*Lle bo arolwg ymgysylltu â'r staff yn tynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder, yna bydd y Bwrdd yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r maes/meysydd sy'n peri pryder, mewn ymgynghoriad â'r tîm rheoli. Gallai hyn gynnwys comisiynu adolygiad allanol diwylliant y sefydliad, ymhlith pethau eraill',*<br><br>A vii. Llunio proses arfarnu 360 gradd ar gyfer yr IS, y gellir ei addasu ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd hefyd (gan ystyried y prosesau / arferion da sy'n bodoli eisoes, er enghraifft, trwy Advance HE) (CYFARWYDDWR GWEITHREDOL ADNODDAU DYNOL / CLERC)<br>**31 Mawrth 2021 (Cwblhawyd)** |
| B | **Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid**: | | | |
| | 1. Gan adeiladu ar arfer da ar draws y sector, byddwn yn datblygu canllawiau arfer da i sicrhau ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid allweddol ac ystyried eu barn wrth ddatblygu strategaeth y brifysgol. Bydd pob prifysgol yn penderfynu sut i weithredu'r canllawiau.<br><br>2. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgwn a byddwn yn mesur ein harfer yn erbyn y canllawiau arfer da. | 1. Cadeiryddion ac Is-gangellorion[i]<br><br>2. Cadeirydd a'r IG | Dan 'ymgysylltu' – mae amcanion yr IG yn cynnwys datblygu enw da allanol a sylw cadarnhaol yn y cyfryngau ymhellach. Cyfarfodydd rheolaidd yr IG gyda rhanddeiliaid allweddol.<br><br>Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid (mewnol ac allanol) wedi'i gynnal yn ystod datblygu'r Weledigaeth a'r Strategaeth gyfredol. Cynhaliwyd ymgysylltu gyda rhanddeiliad ynghylch y Strategaeth Ehangu Mynediad, y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig, Strategaeth Campws 2025 a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad. | B i. Ystyried y canllawiau arferion da yn deillio o drafodaethau Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru. (BWRDD)<br>**Gwneir hyn gynted ag y bo Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru wedi datblygu canllawiau arferion da.**<br><br>***<u>Diweddarwyd Rhagfyr 2020</u>: Bydd y Grŵp Ysgrifenyddion/Clercod yn gweithio ar ddatblygu'r canllawiau arfer da gyda chyllid CCAUC a chyflogi ymgynghorydd allanol i ymgymryd â'r gwaith. Rhagwelir cwblhau hyn erbyn diwedd Chwefror 2021.*** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | 3. Yn ein hadroddiadau blynyddol, byddwn yn egluro sut yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y flwyddyn, yr hyn y mae'r corff llywodraethu wedi'i ddysgu a pha gamau pellach sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod. | 3. Cadeirydd a'r IG | Mae Polisi a Fframwaith Ymgysylltu gyda Myfyrwyr yn bodoli, a ddatblygwyd ar y cyd gyda'r Undeb Myfyrwyr.<br><br>Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid oedd pwnc Diwrnod Strategaeth y Bwrdd/Tîm Gweithredol yn Hydref 2018.<br><br>Mae cyfarfod blynyddol agored y Bwrdd, yn unol â gofynion y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion, yn cyfrannu at yr ymgysylltu hwn. | ***<u>Diweddariad Mawrth 2021</u>: Cadarnhaodd CCAUC gyllid ar gyfer ffrwd gwaith ar 22 Mawrth 2021 a bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn awr.***<br><br>***<u>Diweddariad Tachwedd 2021: Penodwyd ymgynghorydd a dyddiad cwblhau'r gwaith hwn yw 31 Mawrth 2022.</u>***<br><br>B ii. Yn ychwanegol at y canllawiau, cofnodi'n benodol pwy yw rhanddeiliaid y Brifysgol, sut y byddwn ni'n ymgysylltu gyda nhw ac ar ba faterion. (IG / CADEIRYDD)<br>**31 Hydref 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>B iii. Unwaith y bo'r canllawiau arferion da wedi'u mabwysiadu a'u gwreiddio, gofyn i'n harchwiwyr mewnol archwilio'r arferion yn erbyn y canllawiau. (CLERC)<br>**Dyddiad adolygu unwaith y bo'r canllawiau arferion da wedi'u mabwysiadu.**<br><br>B iv. Adlewyrchu ar y mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid gyda strategaethau cefnogol, gan gyfeirio at yr ymarfer rhanddeiliaid y gwnaeth y Bwrdd a'r tîm Gweithredol gymryd rhan ynddo ym mis Hydref 2018. (TÎM GWEITHREDOL YR IG)<br>**31 Hydref 2021(Cwblhawyd)**<br><br>B v. Cynnwys adroddiad ar ymgysylltu gyda rhanddeiliaid fel y nodwyd yn ein hadroddiadau blynyddol, unwaith y bo templed adroddiad blynyddol wedi'i ddatblygu. (IS)<br>**20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd yn 2019/20 ac yn parhau yn unol â'r templed adroddiad** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21) (Cwblhawyd)**<br><br>B vi. Ystyried sut y bydd y Bwrdd yn myfyrio ar ddysgu a gweithredu pellach o ran ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn, er mwyn hysbysu'r adroddiad blynyddol. (CADEIRYDD / IG / CLERC)<br>**20 Rhagfyr 2020 (fel rhan o'r adlewyrchu yn B iv) (Cwblhawyd)** |
| C | **Maint a Siâp y Corff Llywodraethu:** | | | |
| | 1. Byddwn yn diffinio rolau a chyfrifoldebau llywodraethiant yn glir ar gyfer pob rôl gan gynnwys yr ymddygiad disgwyliedig - h.y. Cadeirydd; dirprwy; cadeirydd y pwyllgor; aelodau lleyg, gweithredol, staff a myfyrwyr.<br><br>2. Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau nad yw aelodaeth y corff llywodraethu yn fwy na 22 aelod, gan gynnwys mwyafrif o aelodau lleyg.<br><br>3. Byddwn yn sicrhau nad yw cyfnod aelodau nad ydynt yn weithredol ar gyfer pob rôl fel arfer yn fwy na 9 mlynedd, ond y gellir ei ymestyn i 10 mlynedd mewn amgylchiadau eithriadol. | Pob gweithred - Corff Llywodraethu | Mae disgrifiadau rôl yn bodoli ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd, Is-gadeirydd y Bwrdd a'r Llywodraethwyr. Mae'r disgrifiad rôl llywodraethwyr yn berthnasol i lywodraethwyr annibynnol, staff lywodraethwyr a myfyriwr lywodraethwyr. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch ymddygiad personol.<br><br>Mae Cod Ymddygiad i'r holl lywodraethwyr yn bodoli sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau llywodraethwyr unigol, ymddygiad personol, gwrthdaro buddiannau a chyfrifoldeb ar y cyd.<br><br>Yn y broses gynefino tynnir sylw at gyfraniad unigryw staff a myfyriwr lywodraethwyr, yn cynnwys nad ydynt yn rolau cynrychioliadol. Cynhwysir hyn yn y disgrifiad rôl hefyd:<br>"Mae'n ofynnol i aelodau dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd am y penderfyniad a wneir gan y Corff Llywodraethu. Ni chaiff aelodau wedi'u hethol, eu henwebu neu eu penodi gan garfanau penodol weithredu fel pe baent yn dirprwyo ar ran y grŵp | C i. Datblygu disgrifiadau swydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau. (CLERC)<br>**31 Hydref 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>C ii. Diffinio rôl y tîm gweithredol yng nghyswllt bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd yng nghyswllt eu meysydd cyfrifoldeb.<br>**31 Hydref 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>C iii. Cynnwys sesiwn ar weithredu llywodraethiant ym Mhrifysgol Glyndŵr ym mhroses gynefino aelodau newydd y tîm gweithredol yn y dyfodol (CLERC / IG)<br>**Pan gaiff staff gweithredol newydd eu penodi. (Cwblhawyd)**<br>*Bydd strwythur cynefino priodol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n cael ei gadw gan yr Adran Adnoddau Dynol i'w ddefnyddio pan fydd newid yn aelodaeth y Tîm Gweithredol yn y dyfodol.*<br><br>C iv. Adolygu disgrifiadau rôl llywodraethwyr a'r Cod Ymarfer i benderfynu a yw'n ofynnol |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | | | maen nhw'n ei gynrychioli, ac ni chânt eu rhwymo mewn unrhyw fodd i fandadau a roddwyd iddynt gan eraill."<br><br>Mae aelodau gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd i gyflwyno, ymateb i gwestiynau a chynghori yn unig – nid oes ganddyn nhw unrhyw hawliau pleidleisio. Nid yw Offeryn ac Erthyglau'r Brifysgol yn caniatâu i aelodau'r tîm gweithredol fod yn Lywodraethwyr/Ymddiriedolwyr.<br><br>Mae'r Offeryn a'r Erthyglau'n nodi mwy na 13 a hyd at 24 o aelodau ynghyd â'r IG. Maer Bwrdd wedi cytuno i gadw Bwrdd gydag uchafswm o 20 aelod – mae 18 aelod ar hyd o bryd gyda dwy swydd wag.<br><br>Deiliadaeth llywodraethwyr yw dau dymor o bedair blynedd – cyfanswm o wyth mlynedd gyda'r posibilrwydd o estyniad eithriadol o flwyddyn i naw mlynedd.<br><br>Mae'r rheolau sefydlog yn datgan y caiff llywodraethwr sy'n dod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd ailddechrau eu cyfnod yn y swydd, ond ni ddylent wasanaethu am fwy na 12 mlynedd yn olynol yn unrhyw achos. | cryfhau'r rhain. (CLERC / PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU)<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>C v. Bydd y Bwrdd yn ailddatgan ei bolisi ar uchafswm nifer y llywodraethwyr. (CLERC)<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>C vi. Diweddaru'r Rheolau Sefydlog i leihau'r uchafswm y caiff aelod wasanaethu mewn unrhyw rôl o 12 i 9 mlynedd olynol yn arferol a 10 yn eithriadol, i adlewyrchu argymhelliad Camm (CLERC)<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)** |
| D | **Goruchwyliaeth Strategol**: | | | |
| | 1. Byddwn yn sicrhau bod strategaethau allweddol ein sefydliad ynghyd â mesurau perfformiad cysylltiedig yn cael eu cyfleu'n glir. | Pob gweithred - Cadeirydd a'r IG | Cefnogir y Weledigaeth a'r Strategaeth gan is-strategaethau gyda thargedau perthnasol sy'n cael eu monitro gan amrywiaeth o bwyllgorau perthnasol y Brifysgol sy'n bwydo i mewn i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Bwrdd, lle'u bo'n bodoli. | D i. Yn yr adroddiad blynyddol bydd yr IG yn adrodd ar ddull y Brifysgol o gyflawni ei strategaeth a rhoi trosolwg a mesurau perfformiad wedi'u halinio gyda'r 4 parth strategol yng Ngweledigaeth a Strategaeth 2025 (mae'r gwir berfformiad yn erbyn Dangosyddion |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | 2. Byddwn yn sicrhau bod pwyllgorau cyrff llywodraethu wedi'u strwythuro i alluogi goruchwyliaeth effeithiol o ddatblygiad a chyflawniad strategol, gan gynnwys sicrwydd o gyflawni budd a rheoli risg effeithiol.<br><br>3. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cadarnhau ymagwedd y sefydliad at gyflawni a goruchwylio strategaeth. | | Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn flynyddol, a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol ym mhob adroddiad Monitro Ariannol.<br><br>Ymddengys bod y strwythur pwyllgorau cyfredol yn gweithio'n dda gydag adrodd priodol i'r Bwrdd llawn.<br><br>Y rhaglenni graddfa fawr allweddol yw Campws 2020, y prosiect Canolfan Arbenigedd Ffotoneg a chyfleuster Gwyddorau Gogledd Cymru, 'Xplore'. Darperir adroddiadau rheolaidd gan y tîm gweithredol.<br><br>Deilliodd y gofyniad am adolygiad yn dilyn prosiect i'r Bwrdd gan yr archwilydd mewnol ar waredu tir ac adeiladau a gynhaliwyd yn 2018, ac mae'r gofyniad i gynnal adolygiadau o'r fath wedi'i gynnwys yn y polisi Gwaredu Asedau Sefydlog. | Perfformiad Allweddol yn debygol o barhau'n gyfrinachol) (IG)<br>**20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd yn 2019/20 ac yn parhau yn unol â'r templed adroddiad blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21) (Cwblhawyd)**<br><br>D ii. Cytuno ar ddiffiniad 'prosiectau graddfa fawr' ym Mhrifysgol Glyndŵr er mwyn ehangu'r adolygiad yn dilyn prosiect sy'n ofynnol yn gyfredol o ran gwaredu asedau; a'i gymhwyso i brosiectau eraill a chynnwys canlyniadau'r adolygiadau mewn adroddiad blynyddol i'r Bwrdd (TÎM GWEITHREDOL YR IG)<br>**31 Gorffennaf 2020 (cwblhawyd y diffiniad)**<br><br>D iii. Cynnwys adolygiad o strwythur pwyllgorau'r Bwrdd a'r modd maen nhw'n gweithredu fel canolbwynt adolygiad nesaf effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2021/22 (CLERC)<br>**31 Gorffennaf 2022 (Cwblhawyd)**<br><br>**<u>Diweddariad Mawrth 2021</u>: bydd cylch gwaith yr adolygiad effeithiolrwydd nesaf yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn Ebrill 2021.**<br><br>**<u>Diweddariad Tachwedd 2021</u>: Mae Advance HE wedi cynnwys adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau'r Bwrdd yn adolygiad cyfredol y Bwrdd.** |
| E | **Annibyniaeth llywodraethwyr lleyg a rheoli gwrthdaro**: | | | |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | 1. Gan gyfeirio at God Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (PCP), byddwn yn datblygu canllawiau i gadarnhau beth yw ystyr annibyniaeth ar gyfer aelodau lleyg o gyrff llywodraethu gan gynnwys is-bwyllgorau.<br><br>2. Byddwn yn mabwysiadu'r diffiniad o annibyniaeth y cytunwyd arno ac yn nodi sut mae ein haelodau lleyg yn annibynnol yn yr adroddiad blynyddol.<br><br>3. Byddwn yn sicrhau dull cadarn o ddynodi a rheoli gwrthdaro o ran buddiannau ac yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i randdeiliaid.<br><br>4. Bydd y disgrifiad rôl ar gyfer ysgrifennydd / clerc yn cynnwys datganiad o atebolrwydd clir am dynnu sylw'r Cadeirydd at | 1. Grŵp Ysgrifenyddion<br><br>2. a 3. Ysgrifennydd / Clerc<br><br>4. Grŵp Ysgrifenyddion | **Mae Cod Ymddygiad llywodraethwyr yn bodoli ac mae'n cynnwys adran ar wrthdaro buddiannau. Mae'r cod yn berthnasol i'r holl lywodraethwyr ac aelodau cyfetholedig pwyllgorau.**<br><br>**Cedwir cofrestr buddiannau a'i diweddaru a'i hadolygu gan y Bwrdd yn flynyddol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan y brifysgol.**<br><br>**Cynhwysir cofrestr buddiannau ar wefan BWRDD YR IG hefyd.**<br><br>**Mae datgan buddiannau'n eitem ar holl agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau i bromptio'r Cadeirydd a'r holl lywodraethwyr i ddatgan unrhyw wrthdaro gwir, dirnadaeth o wrthdaro neu wrthdaro potensial a allai godi. Gall unrhyw lywodraethwr neu aelod o'r tîm gweithredol fynegi unrhyw bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau potensial wrth y Clerc neu Gadeirydd y Bwrdd neu Gadeirydd y pwyllgor perthnasol cyn y cyfarfodydd, os oes angen.**<br><br>**[*DS. Ymdrinnir â materion llywodraethu/diwylliant datgelu yn adran 1 uchod*]**<br><br>**Adolygwyd disgrifiad swydd y Clerc yn erbyn rolau meincnodi yn 2018/19.** | **E i.** Adolygu a mabwysiadu'r canllawiau ar annibyniaeth llywodraethwyr a ddatblygwyd gan Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru. (PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU / BWRDD)<br>**31 Hydref 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>E ii. Cynnwys sylwadau ynghylch annibyniaeth llywodraethwyr yn yr adroddiad blynyddol. (CLERC)<br>**20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd yn 2019/20 ac yn parhau yn unol â'r templed adroddiad blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21) (Cwblhawyd)**<br><br>E iii. Adolygu'r ffurflen datgan buddiannau gan lywodraethwyr a uwch aelodau'r tîm gweithredol yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau. (CLERC).<br>**31 Ionawr 2021 (Cwblhawyd)**<br><br>E iv. Datblygu polisi gwrthdaro buddiannau ar gyfer y Brifysgol i'w gyhoeddi, yn cyfeirio at ganllawiau gwrthdaro a materion eraill fel rhoddion a lletygarwch yn y rheoliadau ariannol, y Cod Ymddygiad Llywodraethwyr a dogfennau perthnasol eraill. (BWRDD YR IG)<br>**31 Hydref 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>**E v**. Gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu'r prosesau a rheoli gwrthdaro buddiannau'n gyfnodol. (PWYLLGOR ARCHWILIO)<br>**31 Gorffennaf 2021 (Cwblhawyd)**<br><br>**<u>Diweddariad Tachwedd 2021:</u> mae'r archwilwyr mewnol wedi cytuno i gynnwys yr adolygiad hwn wrth archwilio'r cynnydd o** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | faterion annibyniaeth neu wrthdaro. | | | **ran rhoi argymhellion Camm ar waith, wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2022.**<br><br>Evi. Adolygu disgrifiad rôl y Clerc, gan ystyried canlyniadau gwaith y grŵp ysgrifenyddion / clercod. (CLERC / CYFARWYDDWR ADNODDAU DYNOL / PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL)<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)** |
| **F** | **Recriwtio aelodau lleyg:** | | | |
| | 1. Byddwn yn sicrhau bod recriwtio aelodau lleyg yn cael ei gyflawni drwy broses benodi glir a thryloyw gan roi sylw dyledus i sgiliau a phrofiad cyffredinol y corff llywodraethu, cydbwysedd rhwng gwybodaeth am y sector a gwybodaeth arall ac ymrwymiad i amrywioldeb a chynhwysiant.<br><br>2. Byddwn yn adrodd yn ôl ar ein gwaith yn y maes hwn yn ein hadroddiadau blynyddol drwy sicrhau bod adroddiad ar waith y pwyllgor enwebiadau (neu gyffelyb) yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau blynyddol. | 1. Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion<br><br>2. Ysgrifennydd / Clerc | Mae gan y Bwrdd weithdrefn ar gyfer penodi llywodraethwyr a adolygir yn rheolaidd.<br><br>Mae gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu fatrics sgiliau sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.<br><br>Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo datganiad ynghylch ei ymrwymiad i amrywiaeth y Bwrdd.<br><br>Mae'r wefan yn cynnwys tudalen barhaol sy'n gwahodd ceisiadau gan bobl â diddordeb mewn bod yn llywodraethwr sy'n cael ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw sgiliau a phrofiadau penodol ar adeg recriwtio i lenwi swyddi gwag.<br><br>Defnyddir gwefan penodiadau'r Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion i hysbysebu swyddi gwag a rhennir manylion am swyddi gwag gyda rhwydweithiau cydraddoldeb ac amrywiaeth. | F i. Cyhoeddi'r weithdrefn recriwtio llywodraethwyr ar y wefan. (CLERC)<br>**30 June 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>F ii. Cynyddu'r wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol ynghylch gwaith y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu o ran sut y mae wedi gweithredu ei broses penodi i'r Bwrdd o ran aelodau newydd, sut y mae wedi adolygu ac ystyried y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd. (CLERC)<br>**20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd yn 2019/20 ac yn parhau yn unol â'r templed adroddiad blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21) (Cwblhawyd)**<br><br>F iii. Wrth gynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd, ystyried yn benodol yn y weithdrefn penodi Llywodraethwyr, rôl y Cadeirydd, y broses i'w chynnal i benodi Cadeirydd a'r ymddygiad dymunol / meini prawf sy'n ofynnol, gan groes-gyfeirio at ddisgrifiad rôl y Cadeirydd. (CLERC / IG).<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cynhelir proses gyfweld dau gam – yn gyntaf gyda'r Is-ganghellor i drafod diddordebau a rhannu gwybodaeth am y Brifysgol er mwyn sefydlu addasrwydd a diddordeb gwirioneddol. Yr ail gam yw cyfweliad gyda thri llywodraethwr a'r Is-ganghellor. Y Bwrdd sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr holl benodiadau, ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>Cynhwysir adroddiad ar waith y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn yr adroddiad blynyddol.<br><br>Mae'r Offeryn ac Erthyglau'n nodi ar hyn o bryd fod rhaid i'r Bwrdd benodi Cadeirydd o blith yr aelodaeth annibynnol. | |
| G | **Llywodraethiant cydnabyddiaeth ariannol:** | | | |
| | 1. Byddwn yn adolygu cylch gorchwyl ein pwyllgorau cydnabyddiaeth a chwmpas ein hadroddiad ar gyflogau er mwyn cadarnhau cydymffurfiad â gofynion CCAUC a chod ymarfer PCP ar gyfer talu uwch aelodau staff.<br><br>2. Bydd CCAUC yn adolygu ac yn cadarnhau gofynion adrodd am gyflogau a buddion. | 1. Ysgrifennydd / Clerc<br><br>2. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ei gylch gwaith yn 2018/19 – a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn dilyn proses fapio yn erbyn Cod Cydnabyddiaeth Ariannol y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion.<br><br>Fel rhan o'r mapio yn erbyn y Cod, ym mis Gorffennaf 2019 cymeradwyodd y Bwrdd y "Canllawiau i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol: Trefniadau Taliadau Diswyddo" a'r "Polisi Gweithgareddau Allanol a Chadw Taliadau Cysylltiedig – deiliaid uwch swyddi." | G i. O gofio'r gwaith a wnaed eisoes ynghylch arferion cydnabyddiaeth ariannol i gydymffurfio gyda Chod Cydnabyddiaeth Ariannol y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion, pan fydd CCAUC yn cadarnhau gofynion cydnabyddiaeth ariannol cynhelir adolygiad yr arfer gyfredol a'r datganiad polisi cyflogau eto. (CLERC / PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL)<br>**Cynhelir yr adolygiad hwn gynted ag y bo CCAUC wedi cadarnhau ei ofynion cydymffurfio.** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | 3. Pan fydd cynlluniau bonws uwch swyddogion gweithredol ar waith, byddwn yn sicrhau bod manylion y cynllun bonws a'r mesurau sy'n sbarduno taliad yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyflogau a buddion fel rhan o'r adroddiad blynyddol cyffredinol. | 3. Ysgrifennydd / Clerc | Archwiliwyd arferion y Pwyllgor yn erbyn y Cod gan RSM a rhoi barn sicrwydd sylweddol.<br><br>Mae cydnabyddiaeth ariannol staff yn gyffredinol a chymarebau cyflogau a bylchau cyflogau yn cael eu cynnwys yn y datganiad polisi cyflogau blynyddol sy'n dilyn Fframwaith Llywodraeth Cymru, '*Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddi yn y sector Llywodraeth Cymru*'. Cyhoeddir y datganiad polisi cyflogau yn flynyddol.<br><br>Nid oes gan y Brifysgol gynllun bonws. | **Diweddariad Mawrth 2021: Mae'r Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn bwriadu cyhoeddi Cod Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff diwygiedig ym mis Awst 2021 a bydd arferion yn cael eu hadolygu yn erbyn hyn.**<br><br>**Diweddariad Tachwedd 2021: mae'r Cod Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Staff diwygiedig y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol i gael ei lansio gan Advance HE ar 1 Rhagfyr 2021**<br><br>G ii. Hysbysiad i'r holl randdeiliaid a nodwyd yn adran 2 (ymgysylltu gyda rhanddeiliaid) pan fo'r polisi cyflogau'n cael ei gyhoeddi, i sicrhau tryloywder. (CLERC)<br>**30 Rhagfyr 2020 (Cwblhawyd)** |
| H | **Cynllunio olyniaeth:** | | | |
| | 1. Ym mhob sefydliad, byddwn yn diffinio sut mae cynllunio olyniaeth yn cael ei wneud ar gyfer y rolau canlynol:<br>a. Cadeirydd<br>b. Is-Ganghellor<br>c. Llywodraethwyr lleyg<br>d. Ysgrifennydd / Clerc<br>e. Uwch swyddogion gweithredol allweddol<br><br>2. Byddwn yn cadarnhau ein dull o gynllunio olyniaeth ar gyfer y rolau hyn yn ein hadroddiadau blynyddol. | 1. Corff Llywodraethu<br><br>2. Ysgrifennydd / Clerc | Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb am gynllunio olyniaeth ar gyfer tri deiliad uwch swydd (IG, DIG a'r Clerc) a dyletswydd i sicrhau ystyried cynllunio olyniaeth ar gyfer y tîm gweithredol ehangach.<br><br>Datblygwyd fframwaith cynllunio olyniaeth gan yr adran Adnoddau Dynol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn dilyn archwiliad mewnol diweddar ar gynllunio olyniaeth.<br><br>Mae'r Clerc yn cadw cofnod o gyfnod swydd llywodraethwyr a thrafodir aelodaeth ym mhob cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a threfnir cyfarfodydd 1:1 gyda | H i. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried adroddiad ar gynllunio olyniaeth a pholisi ar gyfer y Cadeirydd a'r Llywodraethwyr. (CADEIRYDD / CLERC)<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>H ii. Bydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol yn parhau i dderbyn adroddiadau diweddaru ynghylch fframwaith cynllunio olyniaeth y Brifysgol, yn dilyn yr archwiliad mewnol cynllunio olyniaeth a gynhaliwyd yn 2018/19 a bydd adroddiad wedi'i seilio ar y fframwaith yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at ystyriaethau penodol o ran uwch aelodau'r tîm gweithredol a deiliaid uwch swyddi. |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | | | llywodraethwyr ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd i drafod eu bwriadau. Cymeradwyir penodiadau ar gyfer ail gyfnod yn y swydd gan y Bwrdd.<br><br>Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n adolygu'r matrics sgiliau'n rheolaidd a phan fo aelodau'n cyrraedd diwedd eu cyfnod yn y swydd neu bod swyddi gwag achlysurol ystyrir y gofynion sgiliau/profiad a dyddiad dechrau cyfnod swydd. | (CYFARWYDDWR GWEITHREDOL ADNODDAU DYNOL)<br>**31 Hydref 2020 (Cwblhawyd, gyda diweddariadau parhaus fel bo'n briodol)**<br><br>H iii. Bydd y Clerc yn cynnwys sylwadau ynghylch dull y Bwrdd o ymdrin â chynllunio olyniaeth yn yr adroddiad blynyddol. (CLERC)<br>**20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd yn 2019/20 ac yn parhau yn unol â'r templed adroddiad blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21)** |
| I | **Amrywiaeth a chynhwysiant:** | | | |
| | 1. Byddwn yn datblygu ymhellach strategaethau tryloyw ar gyfer amrywioldeb ymysg aelodau'r bwrdd sy'n sicrhau bod ein cyrff llywodraethu yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.<br><br>2. Byddwn yn canolbwyntio ar sefydlu a datblygu cyrff llywodraethu er mwyn sicrhau dargadwedd aelodaeth amrywiaethol.<br><br>3. Byddwn yn adrodd ar amrywioldeb a chynhwysiant cyrff llywodraethu ar ein hadroddiadau blynyddol, ynghyd â chynnydd ein strategaeth ar | 1. Corff Llywodraethu<br><br>2. Grŵp Ysgrifenyddion<br><br>3. Ysgrifennydd / Clerc | Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo datganiad ynghylch amrywiaeth:<br><br>*"Nod y Bwrdd Llywodraethwyr yw cynnal cydbwysedd sgiliau, arbenigedd a phrofiad ymhlith ei aelodaeth sy'n ei alluogi i ddarparu arweinyddiaeth briodol i'r Brifysgol a gweithredu trosolwg effeithiol ei weithredoedd. Mae'r Bwrdd yn ceisio gwaredu unrhyw rwystrau a allai atal pobl rhag mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r Bwrdd ac mae'n croesawu diddordeb gan bobl o bob cefndir i'w hystyried ar gyfer eu penodi, gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd aelodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Brifysgol, ei gweithgareddau a'r rhanbarth."*<br><br>Nodir amrywiaeth y Bwrdd yn yr adroddiad cydraddoldeb ac amrywiaeth blynyddol ac adroddir ar hyn yn yr adroddiad blynyddol hefyd. | I i. Bydd strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Bwrdd gyda chyngor gan yr adran Adnoddau Dynol sydd wedi cyflawni gwaith sylweddol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. (CLERC / ADNODDAU DYNOL)<br><br>**<u>Diweddariad Rhagfyr 2020:</u> Mae Grŵp Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru wedi cael cyllid trwy Brifysgolion Cymru i gefnogi pob sefydliad addysg uwch i ddatblygu strategaeth amrywiaeth y Bwrdd.**<br><br>**<u>Diweddariad Mawrth 2021</u>: Cadarnhaodd CCAUC gyllid ar gyfer ffrwd gwaith ar 22 Mawrth 2021 a bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn awr.**<br><br>**<u>Update November 2021</u>: procurement is currently underway with the deadline for delivering this piece of work March 2022.** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | gyfer amrywioldeb yn ystafell y bwrdd. | | | I ii. Bydd adrodd ar amrywiaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach yn yr adroddiad blynyddol, i gynnwys y cynnydd yn erbyn strategaeth amrywiaeth unwaith y bo strategaeth o'r fath wedi'i datblygu. (CLERC)<br>**20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd peth gwybodaeth yn 2019/20 a bydd yn parhau yn unol â'r templed adroddiad blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21)** |
| J | **Hyfywedd hirdymor:** | | | |
| | 1. Ar y cyd â CCAUC, byddwn yn ystyried mabwysiadu dull o adrodd ar hyfywedd hirdymor. | 1. Cadeiryddion ac Is-gangellorion a CCAUC | Dilyn proses ASSuR – a chyflwyno'r manylion i CCAUC gyda'r adroddiad sicrwydd blynyddol ym mis Rhagfyr. | J ii. Mabwysiadu'r dull a ddatblygwyd gan CCAUC, Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru trwy fecanweithiau priodol (CYFARWYDDWR GWEITHREDOL CYLLID)<br>**Gwneir hyn gynted ag y bo Prifysgolion Cymru, CCAUC a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru wedi datblygu dull o fesur hyfywedd tymor hir.** |
| K | **Rheoli risg:** | | | |
| | 1. Byddwn yn sicrhau bod ein prosesau rheoli risg yn cyd-fynd â strategaeth a mesurau hyfywedd hirdymor y sefydliad.<br><br>2. Byddwn yn sicrhau bod ein prosesau archwilio mewnol yn gadarn a bod gallu digonol o fewn y prosesau hynny.<br><br>3. Byddwn yn adrodd ar y risgiau allweddol yn ein hadroddiad | 1. Corff Llywodraethu a CCAUC<br><br>2. IG a Chadeirydd Archwilio<br><br>3. Cadeirydd a'r IG | Mae prosesau adnabod risgiau a rheoli risgiau'r Brifysgol wedi'u dylunio'n benodol i gyd-fynd gyda'r Weledigaeth a Strategaeth a mesurau hyfywedd tymor hir.<br><br>Mae'r Prifysgol yn cyflogi cwmni allanol i gyflawni ei swyddogaethau archwiliad mewnol. Ystyrir fod y prosesau archwilio mewnol yn gadarn a bod capasiti digonol. Mae'r capasiti yn fater y mae'r Pwyllgor Archwilio yn ei ystyried a byddai'n cael ei gynyddu pe bai angen. | K i. Ystyried y mesurau neu'r hyfywedd tymor hir a awgrymir gan CCAUC yn yr adolygiad prosesau rheoli risg.<br>**Gwneir hyn gynted ag y bydd CCAUC wedi datblygu mesurau hyfywedd tymor hir.**<br><br>K ii. Gwella'r adrodd ynghylch strategaethau rheoli risgiau a'r risgiau allweddol a'r mesurau lliniaru posibl yn sylwadau'r IG yn yr adroddiad blynyddol. (IG) |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | blynyddol ynghyd â'n strategaethau ar gyfer rheoli risg. | | Ar hyn o bryd adroddir am y risgiau allweddol yn yr adolygiad ariannol gweithredol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid fel rhan o'r adroddiad blynyddol. | **20 Rhagfyr 2020 (cynhwyswyd yn 2019/20 ac yn parhau yn unol â'r templed adroddiad blynyddol newydd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21)** |
| L | **Chwythu'r Chwiban:** | | | |
| | 1. Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'n polisïau "chwythu'r chwiban" ac yn eu deall.<br><br>2. Byddwn yn ystyried i ba raddau y mae'r polisïau chwythu'r chwiban cyfredol yn ddigon cadarn i ymdopi â'r dirwedd gyfnewidiol sydd mewn Addysg Uwch.<br><br>3. Byddwn yn sicrhau bod y cyrff llywodraethu yn derbyn adroddiad blynyddol yn ymwneud â chwythu'r chwiban gan gynnwys sut mae digwyddiadau wedi cael eu rheoli a'r gwersi a ddysgwyd. | 1. Ysgrifennydd / Clerc<br><br>2. Pwyllgor Archwilio<br><br>3. Ysgrifennydd / Clerc | Darperir y polisi chwythu'r chwiban ar fewnrwyd y staff.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn y polisi chwythu'r chwiban yn flynyddol, ynghyd ag adroddiad blynyddol ar achosion chwythu'r chwiban.<br><br>Ni fu unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, darperir adroddiad blynyddol ar gwynion cyflogaeth yn flynyddol i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol sy'n tynnu sylw at natur a chanlyniadau cwynion cyflogaeth ac urddas yn y gwaith gan staff. | L i. Gofyn i'r adran Adnoddau Dynol ystyried sut i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch bodolaeth y polisi chwythu'r chwiban. (CYFARWYDDWR GWEITHREDOL ADNODDAU DYNOL)<br>**31 Mawrth 2021 (Cwblhawyd)**<br><br>L ii. Gofyn i'r adran Adnoddau Dynol ystyried cael mewnbwn allanol wrth adolygu'r Polisi Chwythu'r Chwiban (gan brifysgol arall sydd wedi ymdrin ag achos chwythu'r chwiban arwyddocaol, o bosibl). (CYFARWYDDWR GWEITHREDOL ADNODDAU DYNOL)<br>**28 Chwefror 2021 (Cwblhawyd)** |
| M | **Adroddiad Blynyddol:** | | | |
| | 1. Er cysondeb, byddwn yn datblygu templed ar gyfer adrodd yn flynyddol ar lywodraethiant, i'w ddefnyddio gan bob prifysgol yng Nghymru.<br><br>2. Bydd pob sefydliad yn defnyddio'r templed hwn fel | Pob gweithred - Grŵp Ysgrifenyddion / CCAUC Corff Llywodraethu | Cymeradwyir adroddiad blynyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol yn flynyddol. | M i. Mabwysiadu'r templed adrodd gynted ag y bo ar gael. (IG / CADEIRYDD / CLERC / CYFARWYDDWR GWEITHREDOL CYLLID)<br>**20 Rhagfyr 2020 (Cwblhawyd i'w weithredu'n llawn yn 2020/21)** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | canllaw i strwythuro'r adroddiad blynyddol gan ddechrau yn hydref 2020. | | | |
| **N** | **Gwybodaeth:** | | | |
| | 1. Byddwn yn diffinio set ddata gyffredin ar gyfer llywodraethwyr i sicrhau y gellir gwerthuso perfformiad gwirioneddol a chymharol y sefydliad. | 1. CCAUC Ysgrifennydd / Clerc | Mae CCAUC yn cyhoeddi pecyn gwybodaeth yn arferol flwyddyn neu oddeutu hynny yn ddiweddarach. Yr un mwyaf diweddar sydd ar gael yw'r un ar gyfer 2017.<br><br>Mae gan y Brifysgol ei setiau data meincnodi ei hun a chynhaliwyd gwaith i adnabod y rhain eisoes. Gwnaeth hyn gynnwys alinio'r adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol i'r Bwrdd gyda'r Weledigaeth a Strategaeth.<br><br>Adroddir ynghylch canfyddiadau adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd yn yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, a chyhoeddir yr adroddiadau ar y wefan.<br><br>Mae'r Llywodraethwyr yn cyfarfod heb aelodau'r Tîm Gweithredol unwaith y flwyddyn (ers 2019) fel rhan o'u diwrnod datblygiad y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cyfarfod heb aelodau'r Tîm Gweithredol cyn bob cyfarfod (4 gwaith y flwyddyn).<br><br>Mae Llywodraethwyr ac aelodau'r Tîm Gweithredol yn cyfarfod mewn lleoliad llai ffurfiol fel rhan o'r diwrnod strategaeth yn | N i. Adeiladu ar y gwaith meincnodi a wnaed eisoes, a nodi mewn un ddogfen gyfeirio i lywodraethwyr y setiau data meincnodi mae'r Bwrdd yn eu derbyn ar bwyntiau amrywiol ymhob blwyddyn academaidd. (CLERC / IG)<br>**31 Gorffennaf 2020 (Cwblhawyd)**<br><br>N ii.Ystyried mabwysiadu unrhyw setiau data cyffredin a awgrymwyd gan CCAUC ar gyfer y sector. (TÎM GWEITHREDOL YR IG)<br>**Gwneir hyn gynted ag y bydd CCAUC wedi diffinio set ddata gyffredin isafswm yn dilyn trafodaeth gydag Ysgrifenyddion / Clercod.**<br><br>**<u>Diweddariad Mawrth 2021:</u> Mae CCAUC yn adolygu'r data yn eu Pecyn Llywodraethwyr, a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2017, ac yn ystyried ffurfio gweithgor i adolygu hyn. Mae James Dawson wedi cynnig bod yn rhan o unrhyw weithgor a sefydlir. Mae CCAUC hefyd yn edrych ar ddatrysiadau ar sail technoleg ar gyfer darpariaeth setiau data cyffredin i'w defnyddio gan Gyrff Llywodraethu.** |

| | Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Arweinydd i gyflwyno'r Ymrwymiad i Weithredu a nodwyd gan Gilliam Camm | Arfer cyfredol ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n berthnasol i'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter | Meysydd gweithredu pellach gan Brifysgol Glyndŵr i ymdrin â'r Ymrwymiad i Weithredu yn y Siarter |
|---|---|---|---|---|
| | | | flynyddol, a'r cyfarfod agored blynyddol a theithiau a briffiadau achlysurol. | |
| O | **Datblygu Llywodraethwyr:** | | | |
| | 1. Byddwn yn sicrhau bod strwythurau sefydlu a chefnogaeth gadarn ar waith i lywodraethwyr newydd gan sicrhau bod pob llywodraethwr yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr.<br><br>2. Byddwn yn datblygu manyleb ar gyfer cynllunio, datblygu a chynnal "hyb" neu "borth" datblygu llywodraethwr a allai ddarparu un lleoliad ar gyfer pob llywodraethwr a swyddog gweithredol mewn AU yng Nghymru / y DU ar gyfer adnoddau datblygu llywodraethwyr a dolenni gwybodaeth.<br><br>3. Byddwn yn datblygu datrysiad ac yn sicrhau perchnogaeth glir ar gyfer ei gynnal. | 1. Ysgrifenyddion / Clercod<br><br>2. CCAUC/Cadeiryddion ac Is-gangellorion a'r Grŵp Ysgrifenyddion<br><br>3. CCAUC | Mae Llywodraethwyr yn derbyn sesiwn gynefino 1:1 gyda'r Clerc a dwy sesiwn gydag aelodau Tîm Gweithredol yr IG, mentor os oes angen a chynnig cyfarfodydd gyda'r Tîm Gweithredol fel bo'n ofynnol.<br><br>Cynhelir diwrnod datblygiad blynyddol ar gyfer y Llywodraethwyr, sy'n cynnwys mewnbwn allanol yn aml.<br><br>Mae'r holl lywodraethwyr wedi'u cofrestru gydag Advance HE i gael mynediad i'w hadnoddau, yn cynnwys cynefino a datblygiad. Darperir hyfforddiant penodol cyfnodol e.e. Atal. | O i. Datblygu tudalen gynefino i lywodraethwyr ar WGYou lle bydd dogfennau perthnasol a dogfennau cynefino ar gael i gefnogi cynefino wyneb yn wyneb. Dylai hyn gynnwys dolenni i unrhyw hwb neu borth sydd ar gael i lywodraethwyr / aelodau'r tîm gweithredol Cymraeg. (CLERC gyda'r adran Technoleg Gwybodaeth)<br>**31 Ionawr 2021 (Cwblhawyd)**<br><br>**Ni ddatblygwyd porth neu hwb allanol ar gyfer y sector Cymraeg hyd yma. Fodd bynnag, mae dolenni i Advance HE a'r PCP wedi'u cynnwys yn y tudalennau WGYou.** |

Rhestr talfyriadau:

| | |
|---|---|
| PCP | Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion |
| IG | Is-Ganghellor |
| TGIG | Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor |
| BIG | Bwrdd yr Is-Ganghellor |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |

[i] Pan fo'r "Arweinydd" ar gyfer gweithredu'n nodi "Cadeiryddion ac IG" mae hyn yn dangos mai grwpiau'r Cadeiryddion a'r Is-Gangellorion fydd yn gweithredu ar y cyd ar draws prifysgolion yng Nghymru. Pan fo'r "Arweinydd" ar gyfer gweithredu'n nodi'r "Cadeirydd ac IG" mae hyn yn dangos mai Cadeirydd ac Is-Ganghellor pob sefydliad unigol fydd yn gweithredu.